

System Fwyd Yng Nghymru Sy'n Addas I Genedlaethau'r Dyfodol

Crynodeb gweithredol o adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd, a gomisiynwyd gan WWF Cymru

Gan Dr Angelina Sanderson Bellamy a'r Athro Terry Marsden



Sustainable Places
Research Institute
Sefydliad Ymchwil
Mannau Cynaliadwy



Mae sut i gyflenwi bwyd iach, maethlon i bawb yn wyneb adnoddau sy'n prnhau a phoblogaeth sy'n tyfu, ac ar yr un pryd mynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, yn her enfawr yn fyd-eang ac i Gymru. Mae cruglwyth o adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at yr angen i newid y system fwyd.¹ Yma yng Nghymru, mae gennym gyfle i gynllunio system fwyd sy'n gweithio law yn llaw â natur ac sydd wir yn sicrhau llesiant i genedlaethau'r dyfodol.

Mae system fwyd Cymru'n rhan o system ryngwladol ehangach, ac mae llawer o'n heconomi fwyd wedi'i hintegreiddio â rhwydweithiau ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Cydnabyddir hyn trwy gydol yr adroddiad, ond mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y materion hynny lle mae gan Gymru awdurdod datganoledig i weithredu. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol, yn rhoi cyfle inni fabwysiadu rôl arweiniol yn y Deyrnas Unedig o ran datblygu polisiau bwyd, yn y cyd-destun ehangach yn y Deyrnas Unedig o ran Brexit a'r heriau difrifol mae system fwyd y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu.

Mae ein system fwyd yn cynnwys amrywiaeth fawr o weithgareddau o'r pridd i'r plât. Mae cadwyn cyflenwi o



© ALEAIMAGE, iStock

gynhyrchwyr, gwneuthurwyr, proseswyr a manwerthwyr yn gweithredu'n lleol ac yn fyd-eang, ac mae prynwyr yn mwynhau cynhyrchion o bob cwr o'r byd yn ogystal â'r rhai o fusnesau bwyd lleol. Mae'r system fwyd yn un o elfennau hanfodol ein llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n ein bwydo, yn darparu swyddi ac yn cynnal cymunedau a diwylliant.

Ond mae yna broblemau systematig hefyd, y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys. Ni all llawer o bobl yng Nghymru ffordio cael deiet iach. Mae'r system fwyd yn cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd a llesiant economaidd. Mae hyn yn llesteirio ein gallu i ffynnu fel cenedl yn awr ac yn y dyfodol.



© SDI Productions, iStock

Mae angen i Gymru weithredu ar frys i greu system fwyd integredig, gynaliadwy a theg sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi'r weledigaeth a'r ysgogiadau mae eu hangen i gyflawni'r trawsnewidiad hwn. Gall hwylyso ymagwedd fwy cydgyssylltiedig ar draws y system fwyd, er enghraifft trwy gysylltu polisi amaethyddol â pholisi iechyd, a chysylltu'r bwyd a gynhyrchwn yng Nghymru â'r bwyd a fwydwn.

Mae'r sector bwyd yn cynnig cyfle delfrydol i ddangos sut y gall ymagwedd systemau sicrhau amrywiaeth fawr o fuddion o dan bob un o saith nod llesiant y Ddeddf a rhoi ar waith egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn y Ddeddf. Gyda'r polisiau cywir ar waith, gall ail-leoleiddio cynhyrchu a bwyta bwyd a hybu cadwyni cyflenwi byrrach greu llawer o fuddion i'r economi lleol, yr amgylchedd, iechyd a llesiant.

Fforddiadwyedd a deietau:

Mae banciau bwyd yn cael eu defnyddio mwy a mwy, darparodd rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell 113,373 o gyflenwadau tri-diwrnod o fwyd mewn argyfwng yng Nghymru yn 2018-2019² Mae un ym mhob pump o bobl yng Nghymru'n poeni am redeg allan o fwyd oherwydd diffyg arian, yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd,³ ac mae 160,000 o blant yng Nghymru'n byw ar aelwyd lle mae diet iach yn fwyfwy anfforddiadwy.⁴ Ar yr un pryd, mae cyfraddau gordewdra cynyddol yn costio £73 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd.⁵ Mae 28% o blant yn ordew, ac nid yw 94% yn bwyta'r pum dogn o ffrwythau a llysiau pob dydd a argymhellir.

Effeithiau amgylcheddol:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd a natur. Daeth Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol cyntaf Cymru i'r casgliad nad oes gan yr un o ecosystemau Cymru'r nodweddion mae eu hangen ar gyfer gwydnwch. Mae bywyd gwylt Cymru'n parhau i ddirywio, yn ôl adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019,⁶ mae'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un ym mhob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddfodiant.⁷ Rheoli amaethyddol anghynaliadwy yw'r ffactor mwyaf sy'n sbarduno dirywiad bioamrywiaeth,⁸ ac amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am 12% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru.⁹ Mae'r bwyd a fwydwn yn cael effeithiau byd-eang hefyd; mae olew palmwydd mewn bwydydd pecyn a soia a dyfir i ffwydo da byw yn sbarduno datgoedwigo.¹⁰

Llesiant economaidd:

Mae llawer o bobl sy'n gweithio yn y diwydiant bwyd yn cael cyflogau isel ac mae llawer o ffermwyr yn dibynnu'n fawr ar y cymorthdaliadau presennol o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ansicrwydd ynghylch cymorthdaliadau ar ôl Brexit ac effeithiau posibl Brexit ar farchnadoedd allforio'r Deyrnas Unedig yn golygu bod hon yn adeg bryderus iawn i lawer yn y diwydiant bwyd.

Gallai ymagwedd integredig at fwyd gyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:




Ffigur A: Canlyniadau System Fwyd sy'n Addas i Genedlaethau'r Dyfodol

- Cymru'n dathlu ac yn adeiladu ar ei statws Cenedl Masnach Deg
- Cadwyni cyflenwi bwyd yng Nghymru heb gynnwys datgoedwigo

- Bwyd yn cael ei ddefnyddio i ddatlu ein treftadaeth a'r Gymraeg
- Pobl yn dod i Gymru i brofi ein bwydydd, ein diodydd a'n lletygarwch
- Bwyd yn rhan sylfaenol o'r 'Economi Seiliol'

- Bwyd a ffermio'n cynorthwyo cymunedau gwledig i ffynnu
- Bwyd yn cael ei ddefnyddio fel "cynullydd" i ddod â phobl ynghyd
- Sefydliadau'r gymdeithas sifil, hybiau bwyd a chyrff cydweithredol yn hybu mentrau bwyd lleol

- Pawb yn gallu cael bwyd iach, fforddiadwy
- Dulliau cyd-gynhyrchu'n siapia'r ddarpariaeth bwyd yng Nghymru



- Adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac ecosystemau iach yn sail i gynhyrchiant bwyd
- Bwyd iachach a mwy cynaliadwy o Gymru'n cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i'r sector cyhoeddus ac aelwydydd yng Nghymru
- Y cyflog byw gwirioneddol yn sail i gadwyn cyflenwi Cymru
- Sector bwyd Cymru'n gyfrannwr sylweddol i darged newid hinsawdd sero-net Cymru, gyda meintiau sylweddol o garbon yn cael eu storio ar dir Cymru

- Systemau ffermio wedi'i seilio ar natur /amaeth-ecolegol Cymru yn helpu i adfer bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, yn helpu i atal llifogydd ac i gadw aer a dŵr Cymru'n lân

- Pawb yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau a llai o fwyd wedi'i brosesu'n eithafol
- Pawb yn dysgu am fwyd a sut i'w dyfu a sut i baratoi prydau bwyd maethlon

Noder: Datblygwyr y ffigur hwn yn weiddol gan Polisioc-Afer-Bwyd Cymru. Mae wedi cael ei addasu ynghyd at dalbenion yr adroddiad hwn.

Datblygu strategaeth system fwyd i Gymru

Er mwyn sicrhau system fwyd sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol, a'r holl fuddion a ddaw yn ei sgil, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth system fwyd i Gymru. Gan gyfeirio at adroddiadau rhyngwladol diweddar, tystiolaeth wyddonol ac ymagweddau polisi yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, a'r polisiau a gofynion deddfwriaethol presennol o ran bwyd yng Nghymru, argymhellwn dair prif elfen wrth ddatblygu'r strategaeth hon:

1. Cyd-greu gweledigaeth newydd ar gyfer bwyd Cymru, yn seiliedig ar 10 thema allweddol gydgysylltliol

Y 10 thema allweddol gydgysylltliol

1. Ffermio amaeth-ecolegol
2. Sgilliau ffermio amaeth-ecolegol
3. Hybu garddwriaeth
4. Caffael bwyd yn lleol
5. Hybiau bwyd cynaliadwy
6. Cydweithfeydd bwyd
7. Marchnadoedd digidol
8. Canllawiau diet cynaliadwy
9. Safonau bwyd o ansawdd da
10. Datblygu cuisine Cymreig ym marchnad y Deyrnas Unedig



Drwy adeiladu'r cyflenwad lleol o fwyd iach, cynaliadwy a hygyrth, dylai sector bwyd a ffermio Cymru adfywio ei sylfaen ecolegol, gan adfer natur er mwyn darparu'r nifer fawr o swyddogaethau a gwasanaethau mae ffermwyr a'r gymdeithas yn dibynnu arnynt. Argymhellwn i Gymru sicrhau'r trawsnewidiad hwn i ranbarth ffermio amaeth-ecolegol erbyn 2030.

Amaeth-ecoleg: Mae amaeth-ecoleg yn cymhwyso cysyniadau ac egwyddorion ecolegol i arferion cynhyrchu bwyd, gan reoli rhyngweithiadau rhwng planhigion, anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd er maeth a diogelwch bwyd. Er enghraifft, byddai ymagwedd amaeth-ecolegol at iechyd y pridd yn canolbwyntio ar fewnbynnau naturiol a'u cadw. Mae'r amrywiaeth arferion mewn system amaeth-ecolegol yn creu system fwy cadarn a chydnerth sy'n llai agored i niwed gan ddynameg marchnadoedd rhyngwladol.

Bydd ffermio sy'n defnyddio egwyddorion amaeth-ecolegol yn galw am becyn cynhwysfawr o hyfforddiant a sgilliau. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r gwaith o sefydlu canolfannau hyfforddi rhanbarthol i sbarduno cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth, gan fanteisio ar y doreth o wybodaeth sydd gan ffermwyr, busnesau a sefydliadau addysg bellach ac uwch. At hynny mae angen hyfforddiant a chynghor busnes, yn ogystal â gwella mynediad i dir, er mwyn cynyddu cynhyrchiant garddwriaethol ar raddfa fach yng Nghymru.

Gall caffael cyhoeddus lleol a rhanbarthol - er enghraifft, mewn ysgolion, ysbytai a swyddfeydd cynghorau - helpu i greu marchnadoedd ar gyfer busnesau bwyd lleol. Dylai Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys meini prawf gwerth cyhoeddus ynghylch safonau amgylcheddol, llesiant a maeth ym maes cynhyrchu bwyd.

Dylai gweledigaeth fwyd newydd i Gymru ganolbwyntio ar ail-leoleiddio'r system fwyd, adfer cyfalaf amgylcheddol, cymdeithasol a dynol er mwyn cryfhau diogelwch bwyd a sicrhau mwy o werth yn lleol. Dylai edrych ar yr hyn y gallwn ei gynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru a theilwra hyn i alwadau prynwyr a chyfluoedd yn y farchnad. Mae angen i'r weledigaeth hon gael ei chyd-gynhyrchu gan y llywodraeth, ffermwyr, busnesau bwyd a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys, yn bwysig iawn, y cyhoedd drwy ddulliau cyfranogol newydd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.



2. Seilweithiau - ail-adeiladu darpariaeth fwyd gynaliadwy

Mae angen ail-adeiladu seilweithiau bwyd. Er mwyn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol ac i ail-gydbwysu dosbarthiad pŵer, mae angen seilwaith mewn trefi ac yng nghefn gwlad er mwyn cysylltu cynhyrchwyr bwyd â phrynwyr mewn ffyrdd mwy amrywiol. Mae hyn yn golygu mwy o safleoedd ar gyfer marchnadoedd bwyd, marwerthwyr cymunedol a phroseswyr bwyd, buddsoddi mewn cydweithfeydd bwyd a datblygu rhwydwaith o hybiau bwyd sy'n cydgasglu ac yn dosbarthu bwyd lleol. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cynlluniau ar gyfer datblygu hybiau bwyd, a allai hwylyso darparu a chaffael lleol a rhanbarthol i'r sector cyhoeddus yn ogystal â phrynwyr preifat.

Dylai Cymru goleddu a datblygu marchnadoedd bwyd a chadwyni cyflenwi digidol sy'n cysylltu prynwyr â chynhyrchwyr a hybiau bwyd. O gynyddu perchnogaeth ac ymgysylltiad dinasyddion mewn system fwyd fwy lleol gellir gwella cydlyniant cymunedol yn ogystal â helpu i lunio'r hyn a gynhyrchir a sut y'i cynhyrchir. Bydd y seilweithiau hyn wedi'u hail-leoleiddio hefyd yn caniatáu i fanwerthwyr stocio mwy o fwyd lleol sydd wedi'i gynhyrchu trwy arferion ffermio amaeth-ecolegol.



3. Mecanweithiau cyflenwi

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth fwyd newydd i Gymru ac adeiladu'r seilwaith bwyd angenrheidiol, mae angen datblygu set o bolisiau a mecanweithiau ariannu. Dylai Cynlluniau Llesiant ac Asesiadau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwricwlwm ysgolion fod yn gyfryngau allweddol ar gyfer sicrhau prosesau cynaliadwy o ran cynhyrchu a bwyta bwyd.

Dylai Comisiwn Bwyd Cymru newydd gael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth system fwyd, i gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, arweinwyr y Datganiadau Ardal, byrddau addysg ac iechyd y cyhoedd, arweinwyr Llywodraeth Cymru ar bolisi bwyd (gan gynnwys amaeth, caffael, iechyd a gofal cymdeithasol) ac ymarferwyr bwyd (gan gynnwys sefydliadau yn y gymuned a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol). Rydym hefyd yn argymhell creu Fframwaith Bwyd Cyffredinol Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gan holl bobl Cymru yr hawl i gael bwyd iach.



Camau nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig ad-drefnu ac ail-alinio polisi bwyd yng Nghymru mewn modd radical. Gobeithiwn ei fod yn cynnig syniadau ar gyfer gweithredu ar unwaith yn ogystal â thrafodaethau ac ymchwil pellach. Rydym yn awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ganfod tir cyffredin ac i ymchwilio i wahaniaethau er mwyn helpu i greu system fwyd yng Nghymru sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol.

- i. Mae arbenigwyr yn cytuno bod angen "a radical rethink of business models, food systems, civil society involvement, and national and international governance" er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau cydgyssylltiol gordewdra ([The Lancet Commission on Obesity, 2019](#)), tan-faethiad, tiodi ([Statement on Visit to the United Kingdom, by Professor Philip Alston, United Nations Special Rapporteur on extreme poverty and human rights, 2018](#)), newid hinsawdd ([IPCC 2019 Climate Change and Land](#)) a dirywiad ecosystemau a cholli bioamrywiaeth ([State of Nature 2019; IPBES 2019 Global Assessment Report on biodiversity and ecosystem services](#))
- ii. Ymddiriedolaeth Trussell, [End of Year Stats](#), cyrchwyd Ionawr 2020
- iii. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, [Food Security in Wales](#), Mawrth 2018
- iv. The Food Foundation, [Affordability of the UK's Fatwell Guide](#), Medi 2018
- v. Iechyd Cyhoeddus Cymru, [The case for action on obesity in Wales](#), 2018
- vi. Cyfoeth Naturiol Cymru, [The State of Natural Resources report](#), 2016
- vii. Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, [State of Nature Report](#), 2019
- viii. Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, [State of Nature Report](#), 2019
- ix. Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, [State of Nature Report](#), 2019
- x. National Atmospheric Emissions Inventory, [Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2016](#), Mehefin 2018
- xi. WWF, [Risky Business](#), October 2017